Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio)

Gorffennaf 2025

## 1. Y cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Hydref 2024.[1]

**2.** Mae enw hir y Bil yn datgan y canlynol amdano:

> *"Bil yw hwn i wneud darpariaeth sy'n newid y gyfraith ynghylch y drosedd o aflonyddu ar dda byw, gan gynnwys newidiadau i'r hyn sy'n cyfrif fel trosedd a rhagor o bwerau i ymchwilio i droseddau a amheuir; ac at ddibenion cysylltiedig."*

**3.** Mae Rheol Sefydlog 29.1 yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo Bil gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n gysylltiedig â materion datganoledig.

**4.** Gosododd Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ("Ysgrifennydd y Cabinet"), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil ar 30 Mai 2025.[2]

[1] Senedd y DU, y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025

**5.** Ar 11 Mehefin, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 19 Medi 2025.[3]

# 2. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**6.** Mae paragraffau 3 i 7 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi amcanion polisi'r Bil. Mae paragraff 9 yn crynhoi'r Bil:

> *“Mae'r Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) yn cynnwys darpariaethau i gyflawni nifer o ddiwygiadau i Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 i wella gorfodaeth mewn ymateb i achosion o gŵn yn poeni da byw. Mae'r Bil yn gwneud hynny drwy gynyddu'r pwerau sydd ar gael i'r heddlu ar gyfer casglu tystiolaeth ac yna gwella gorfodaeth gan yr heddlu. Mae’r Bil yn ymestyn y dirwedd a gwmpesir i gynnwys ffyrdd a llwybrau ac yn ehangu cwmpas y da byw sy'n cael eu diogelu ar hyn o bryd i gynnwys camelidau. Mae hefyd yn cynyddu uchafswm y gosb mewn perthynas â throseddau yn adran 1 o Ddeddf 1953 o £1000 i ffi ddiderfyn.”*[4]

**7.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi y cafodd darpariaethau i fynd i’r afael â throseddau poeni da byw a gorfodaeth eu cynnwys yn gyntaf yn y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir), Bil gan Lywodraeth y DU, a fethodd ym mis Mai 2023. Mae'n nodi y cyflwynwyd y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio) i Senedd y DU ar 11 Rhagfyr 2023, ond arweiniodd diddymu'r Senedd ar gyfer Etholiad Cyffredinol Gorffennaf 2024 at fethiant y Bil am yr eildro.[5]

## Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**8.** Mae paragraffau 10 i 39 yn nodi darpariaethau'r Bil y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

---

[3] Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mehefin 2025
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025, paragraff 9
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025, , paragraffau 3-4

**9.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi barn Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a nodir "gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn enwedig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth".[6]

**10.** Mae crynodeb o'r cymalau wedi'i nodi isod.

## Cymal 1 (Poeni da byw: cwmpas a chanlyniadau trosedd) a'r Atodlen (Diwygiadau i Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953)

**11.** Mae Cymal 1 yn rhoi effaith i'r Atodlen, sy'n nodi diwygiadau i Ddeddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 ("Deddf 1953"). Mae'r diwygiadau hyn yn:

- dod â digwyddiadau ar ffyrdd a llwybrau o fewn cwmpas y drosedd yn adran 1 o Ddeddf 1953;
- dod â chamelidau o fewn y diffiniad o "da byw" sy'n gymwys at ddibenion y drosedd honno;
- esemptio perchennog ci rhag atebolrwydd am drosedd pan fo person arall yn gyfrifol am y ci heb gydsyniad y perchennog;
- cynyddu'r gosb y gellir ei gosod pan geir person yn euog o'r drosedd honno;
- caniatáu i lys orchymyn troseddwr i dalu treuliau sy'n gysylltiedig ag ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth;
- diweddaru'r derminoleg a ddefnyddir yn Neddf 1953 er mwyn ymdrin ag ymosod ar dda byw ar wahân i boeni da byw.

## Cymal 2 (Ymafael mewn cŵn a'u cadw'n gaeth)

**12.** Mae'r cymal hwn yn disodli adran 2 o Ddeddf 1953 ac yn nodi'r amgylchiadau, a ddisgrifir yn adran newydd 2(1) ac (8), pan gaiff cwnstabl ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth mewn perthynas â'r drosedd o ymosod ar dda byw neu boeni da byw.

**13.** Mae adran newydd 2(2) yn darparu y caiff cwnstabl sy'n ymafael mewn ci gadw'r ci yn gaeth hyd nes bod y perchennog wedi hawlio'r ci ac wedi talu'r holl dreuliau ymafael a chadw sy'n ofynnol. Mae adran 2(3) newydd yn gwneud

[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025,, paragraff 41

darpariaeth ynghylch yr hyn y gellir ei wneud i unrhyw gi yr ymafaelir ynddo os nad yw'n cael ei hawlio ar ôl saith niwrnod. Mae adran newydd 2(4) yn darparu, os yw person yn cymryd meddiant o gi yr ymafaelwyd ynddo yn ddidwyll, bod y person hwnnw yn dod yn berchennog y ci. Mae adran 2(5) a (6) newydd yn nodi gofynion mewn perthynas â chadw cofrestr o'r holl gŵn yr ymafaelwyd ynddynt o dan is-adran (1). Mae adran 2(7) newydd yn cynnwys diffiniad "o waredu" ar gi. Mae adran 2(8) a (9) newydd yn grymuso'r heddlu i ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth pan fo ganddynt sail resymol dros gredu bod y ci yn peri risg o ymosod ar dda byw neu boeni da byw eto, pe na bai'n cael ei gadw'n gaeth.

### Cymal 3 (Casglu samplau ac olion)

**14.** Mae'r cymal hwn yn mewnosod adran newydd 2ZA yn Neddf 1953 sy'n galluogi cwnstabl i gymryd samplau neu olion gan gi neu dda byw pan allai hyn ddarparu tystiolaeth o drosedd sy'n cael ei chyflawni o dan adran 1 o Ddeddf 1953 ac ymafael mewn ci a'i gadw'n gaeth at y diben hwnnw.

### Cymal 4 (Pwerau mynediad)

**15.** Mae'r cymal hwn yn disodli adran 2A yn Neddf 1953. Mae'n galluogi i warant gael ei dyroddi gan ynad heddwch sy'n awdurdodi mynediad at safle a'i chwilio gan gwnstabl er mwyn nodi ci y mae trosedd o dan adran 1 wedi'i chyflawni mewn cysylltiad ag ef, ymafael yn y ci a'i gadw'n gaeth o dan adran 2, cymryd sampl neu olion gan y ci o dan adran 2ZA neu i ymafael mewn unrhyw dystiolaeth o drosedd o dan adran 1 y gellir dod o hyd iddi.

### Cymal 5 (Rhychwant, cychwyn, darpariaeth drosiannol a theitl byr)

**16.** Mae'r cymal hwn yn nodi bod y Bil yn rhychwantu Cymru a Lloegr yn unig, ac y bydd yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod y mae'r Ddeddf yn cael ei phasio. Mae Cymal 5(3) hefyd yn egluro bod y pwerau a roddwyd gan gymalau 2, 3 a 4 ar gael mewn cysylltiad ag unrhyw boeni da byw neu ymosod arnynt a ddigwyddodd (neu yr honnir iddo ddigwydd) cyn i'r Bil ddod i rym.

## Safbwynt Llywodraeth y DU o ran yr angen am gydsyniad

**17.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod Llywodraeth y DU "o'r farn nad oes angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol Senedd Cymru ar y Bil ar y sail bod holl ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â mater cŵn peryglus a

chŵn sydd allan o reolaeth ac yn beryglus sy'n fater a gedwir yn ôl yn unol â pharagraff 44, Adran B6 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006."[7]

## Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil

**18.** Datgenir y canlynol ym mharagraff 42:

> *"Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hynny yn y Bil hwn am resymau sy'n ymwneud ag amseru ac er mwyn sicrhau cydlyniant, sy'n arbennig o bwysig mewn perthynas â gorfodi ar draws ffiniau."*[8]

**19.** At hynny, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod darpariaethau'r Bil "yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru ynghylch hyrwyddo lles anifeiliaid, a byddant yn sicrhau gwell cydnawsedd rhwng polisi a gweithredu, yn enwedig o ran materion trawsffiniol sy'n gysylltiedig â gorfodi."[9]

**20.** Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn parhau i nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Bil fel y'i drafftiwyd. Mae'n gorffen gyda barn Ysgrifennydd y Cabinet y dylai'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil:

> *"Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, er mwyn bwrw ymlaen â materion lles anifeiliaid pwysig a phroffil uchel. Felly, rwy'n argymell y dylai'r Senedd gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."*[10]

## Goblygiadau ariannol

**21.** Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm:

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025,, paragraff 40
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025,, paragraff 42
[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: y Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025,, paragraff 44
[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025, paragraff 46

> *"Nid ystyrir bod gan y Bil oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru y tu hwnt i gostau staff."*[11]

# 3. Ystyriaeth y Pwyllgor

**22.** Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm yn ei gyfarfod ar 9 Gorffennaf 2025.[12]

**23.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r anghytundeb rhwng Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru, sef bod angen cydsyniad ar gyfer y Bil ar y sail ei fod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau yn y Bil.

**24.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru mewn Bil y DU. Ymhellach, mae'r Pwyllgor yn nodi manteision deddfu ar sail y DU gyfan er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â lles anifeiliaid.

**Casgliad 2.** Nid yw'r Pwyllgor wedi canfod unrhyw reswm i wrthwynebu'r Senedd yn cytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

---

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cŵn (Diogelu Da Byw) (Diwygio), Mai 2025,, paragraff 45
[12] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025